Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU
NHS WALES

# Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio – Sefydliadau GIG Cymru

**Cyhoeddwyd gyntaf: Ionawr 2024**

**Diweddarwyd: Gorrennaf 2025**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52900, ISBN digidol 978-1-80633-289-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD ........ 1
2. Y CYD-DESTUN POLISI ........ 2
3. EGWYDDORION ........ 4
4. DULL GORUCHWYLIO ........ 5
5. UWCHGYFEIRIO AC YMYRRYD ........ 8
6. CYMORTH WEDI'I DARGEDU ........ 13
7. PARTHAU UWCHGYFEIRIO ........ 14
8. ISGYFEIRIO ........ 18
Atodiad 1 – Disgrifiad o'r lefelau uwchgyfeirio ........ 19
Atodiad 2 – Maes sy'n Peri Pryder Lefel 2 ........ 24
Geirfa ........ 26

# 1. CYFLWYNIAD

1. Mae Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio GIG Cymru (y Fframwaith) yn amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer cael sicrwydd gan sefydliadau GIG Cymru, a'r prosesau uwchgyfeirio ac ymyrryd pan fo angen mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder.

2. Mae sefydliadau GIG Cymru yn gweithredu mewn amgylcheddau heriol a nodweddir gan anghenion mwy cymhleth poblogaeth sy'n heneiddio, pwyslais cynyddol ar weithio gyda phartneriaid systemau lleol i greu atebion arloesol i broblemau cynaliadwyedd hirdymor, prinder gweithwyr a heriau ariannol.

3. Bydd fframwaith llywodraethiant agored, tryloyw a chadarn yn sicrhau bod arweinwyr sefydliadau, y rhai sy'n gweithio ynddynt a'r rhai sy'n eu rheoleiddio, yn hyderus am eu gallu i gynnal gwasanaethau a'u gwella yn barhaus.

4. Mae GIG Cymru yn cynnwys sefydliadau amrywiol - byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig. Yn sgil cyfrifoldebau eang y sefydliadau hyn, mae angen i'r fframwaith hwn fod yn hyblyg. Er yn mabwysiadu'r un weithdrefn ac egwyddorion, bydd y dull gweithredu yn cael ei deilwra i'r elfennau cyflawnadwy gan ddibynnu ar gyfrifoldeb a swyddogaeth y sefydliad. Mae'r fframwaith hwn yn gymwys i sefydliadau statudol y GIG yng Nghymru.

5. Mae gan sefydliadau GIG Cymru ddyletswydd i weithredu'n effeithiol a dangos canlyniadau mesuradwy sy'n meithrin hyder cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eu bod yn darparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel.

6. Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru â'i rhyngwynebau goruchwylio, gan dynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder drwy ei fodel gweithredol a'i egwyddor allweddol o sicrhau ansawdd drwy ddarparu arweinyddiaeth, cyfeiriad ac amgylchedd dysgu cefnogol.

## 2. Y CYD-DESTUN POLISI

7. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn darparu'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y fframwaith hwn sy'n amlinellu'r sail resymegol i Weinidogion Cymru geisio sicrwydd, a phwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru.

8. Mae sefyllfa ddeddfwriaethol Cymru yn unigryw, gyda phwyslais cryf ar gydweithio, cydgynhyrchu ac integreiddio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn darparu'r gefnlen ddeddfwriaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r tair deddf yn rhoi pwyslais cadarn ar leihau anghydraddoldebau iechyd drwy atal hirdymor a darparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae deddfau penodol eraill yn cynnwys Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

9. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sylfaen i'r Rhaglen Lywodraethu a Cymru Iachach, ac maent yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio a'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni gwerthoedd ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

10. Mae Cymru Iachach yn amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cynnig dull gweithredu system gyfan ar gyfer y maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n deg, a lle y caiff gwasanaethau eu cynllunio ar sail anghenion unigryw unigolion a grwpiau a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal ag ansawdd a chanlyniadau diogel. Un o'r gwerthoedd craidd a ddisgrifir yn Cymru Iachach yw "Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth – darparu gofal gwerth uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser."

11. Mae ansawdd yn ffactor canolog wrth wneud penderfyniadau strategol ac mae'n sylfaen i'n syniadau, ein prosesau comisiynu a darparu gwasanaethau ac yn ein hymwneud â phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a dinasyddion ym mhob lleoliad.

12. Mae'r Fframwaith Cynllunio yn amlinellu blaenoriaethau'r Gweinidogion a'r elfennau cyflawnadwy allweddol sy'n rhoi pwyslais ar y broses oruchwylio ac yn cyd-fynd yn agos ag asesu sefydliadau yn rhan o'r Fframwaith hwn.

13. Mae monitro elfennau cyflawnadwy fframweithiau a pholisïau amrywiol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

   - Y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch
   - Y ddyletswydd Ansawdd a'r ddyletswydd Gonestrwydd
   - Y Fframwaith Cynllunio
   - Y Fframwaith Perfformiad

ynghyd ag allbynnau sefydliadol pob fframwaith yn agweddau pwysig ar y broses uwchgyfeirio ac ymyrryd.

14. Mae'r System Rheoli Ansawdd Genedlaethol yn dwyn data o nifer o ffynonellau ynghyd, gan gynnwys digwyddiadau diogelwch cleifion, a hynny er mwyn triongli'r data a llywio amrywiaeth o weithgareddau mewn perthynas â dysgu ac ansawdd a sicrwydd llywodraethiant.

15. Mae gan y Ddyletswydd Ansawdd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") ddau nod sef gwella ansawdd gwasanaethau a gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ceisio gwella ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ceisio sicrhau ein bod yn cryfhau ein systemau rheoli ansawdd gan ganolbwyntio'n briodol ar waith cynllunio ansawdd, rheoli ansawdd, gwella ansawdd a sicrhau ansawdd. Mae'n diffinio ansawdd fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu mewn modd cyson, dibynadwy a chynaliadwy. Gyda'i gilydd, mae parthau ansawdd a galluogwyr ansawdd yn creu Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023.

16. Mae byrddau sefydliadau yn atebol am fonitro ansawdd a diogelwch, cynlluniau, lliniaru risgiau a chyflawni amcanion/elfennau cyflawnadwy'r fframweithiau Cynllunio a Pherfformiad. Dylent weithredu yn unol ag Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan.

17. Bydd Fframwaith Llywodraethiant y sefydliad yn amlinellu'r trefniadau sicrwydd ac uwchgyfeirio sydd ar waith yn y sefydliad, a bydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth sy'n cynnwys yr holl fframweithiau a deddfwriaeth briodol.

# 3. EGWYDDORION

18. Er mwyn rheoli a darparu gwasanaethau yn sefydliadau cymhleth y GIG, mae angen gallu gweld problemau'n glir ynghyd â gwerthfawrogiad manwl o'r sefyllfa bresennol a'r rhagolygon wrth symud ymlaen. Mae'n bwysig felly creu diwylliant gwella sy'n rheoli ansawdd a pherfformiad wrth ddarparu gwasanaethau mewn modd cadarn gan sbarduno ansawdd gofal gwell i gleifion.

19. Mae'r Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru wrth wraidd dull gweithredu'r fframwaith. Mae pedair colofn arweinyddiaeth dosturiol (arweinyddiaeth effeithiol, arweinyddiaeth gynhwysol, arweinyddiaeth ar y cyd ac arweinyddiaeth systemau) yn sicrhau bod y diwylliant gwella yn un sy'n hwyluso her a chymorth cadarn.

20. Mae'r egwyddorion a ganlyn yn sylfaen i'r Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio:

    - *Creu diwylliant o wella:* nod y trefniadau hyn yw helpu i ddatblygu'n barhaus ddiwylliant o system rheoli ansawdd effeithiol, sy'n cael ei darparu er budd cleifion. Ategir hyn gan amcanion clir a fydd yn sbarduno diwylliant sydd â lefelau uchel o berfformiad ac atebolrwydd.

    - *Tryloywder:* mae'r mesurau a'r elfennau cyflawnadwy a amlinellir yn fframweithiau Cynllunio a Chyflawni GIG Cymru yn cael eu cyfleu'n glir i sefydliadau GIG Cymru, er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am y gofynion, yn gwybod sut y byddant yn cael eu hasesu ac yn ymwybodol o'r broses os nad yw'r elfennau cyflawnadwy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig.

    - *Ffocws cyflawni:* bydd y dull rheoli ansawdd yn cael ei integreiddio, yn pwysleisio camau gweithredu ac yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr (rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG).

    - *Cymesuredd a chydbwysedd:* bydd trefniadau'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod ymyriadau a chamau gweithredu yn gymesur â maint y risg ac y cynhelir cydbwysedd rhwng her a chymorth.

    - *Llinellau atebolrwydd clir:* bydd cynllun cadarn o ran trefniadau dirprwyo a sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y Bwrdd, Cadeiryddion a Swyddogion Atebol yn clustnodi swyddogion i fod yn gyfrifol am yr elfennau cyflawnadwy, a fydd yn sgil hynny, yn rhyngweithio â'r dull goruchwylio.

    - *Ymreolaeth a enillir:* bydd cyflawni yn erbyn cynlluniau a rhagolygon y cytunwyd arnynt yn arwain at fwy o ymreolaeth. Wrth i sefydliadau gyflawni disgwyliadau targedau, bydd amlder a manylder trefniadau goruchwylio yn cael eu hadolygu. I'r gwrthwyneb, bydd lefelau uwch o gymorth ac ymyriadau sicrhau ansawdd yn cael eu rhoi ar waith pan fo angen, a gellid eu hasesu yn rhan o brosesau uwchgyfeirio sefydliadol.

# 4. DULL GORUCHWYLIO

21. Ansawdd, cynllunio (gan gynnwys cyllid a'r gweithlu) a chyflawni (gan gynnwys ansawdd a pherfformiad) yw'r tair thema a fydd yn sylfaen i asesu cynnydd sefydliadau a'u perfformiad yn erbyn eu cynlluniau. Amlinellir y rhain yn y parthau uwchgyfeirio.


22. Mae'r asesiad hwn yn gofyn am ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn ffordd gytbwys gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Y deuddeg safon ansawdd.
- Ansawdd gofal, mynediad a chanlyniadau.
- Atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Cyllid a defnyddio adnoddau yn effeithiol.
- Pobl.
- Arweinyddiaeth a galluogrwydd.
- Adborth profiad y claf.
- Triongli data a defnyddio offer digidol yn effeithiol.

23. Bydd y sefyllfa sefydliadol yn erbyn y blaenoriaethau a'r mesurau sydd wedi'u nodi mewn fframweithiau cynllunio a pherfformiad yn cael ei hadolygu a'i hadlewyrchu fel a ganlyn:

- Amcanion blynyddol y cytunwyd arnynt â Chadeiryddion sefydliadau GIG Cymru.
- Llythyrau Swyddogion Atebol a ddyroddir gan Brif Weithredwr GIG Cymru sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau am reolaeth a pherfformiad ariannol.
- Ymateb Llywodraeth Cymru i gynllun sefydliadol, gan gynnwys amodau atebolrwydd.

24. Mae'r diagram a ganlyn yn amlinellu trefniadau goruchwylio sefydliadau GIG Cymru:



25. Bydd prosesau asesu yn erbyn y fframwaith yn defnyddio ystod o wybodaeth gan gynnwys data meintiol, a fydd yn cynnwys metrigau fframwaith perfformiad a gyhoeddir, a gwybodaeth ansoddol berthnasol. Rhoddir lle blaenllaw i wybodaeth o'r System Rheoli Ansawdd Genedlaethol, adolygiadau o ddiogelwch cleifion, archwiliadau clinigol ac asesiadau yn erbyn datganiadau ansawdd a Safonau NICE. Bydd gwybodaeth sy'n deillio o sgyrsiau am wella ansawdd, gwerth mewn iechyd, digidol, rhaglenni cenedlaethol a rhwydweithiau clinigol yn cael ei chynnwys hefyd er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gynnal asesiad cyflawn o'u sefyllfa a'u cynnydd.

26. Mae gwybodaeth gan drydydd partïon annibynnol perthnasol, gan gynnwys Llais, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn chwarae rhan allweddol o ran llywio asesiadau Llywodraeth Cymru.

27. Bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio i gynnal prosesau monitro parhaus fel a ganlyn:

- Metrigau a gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau.
- Adborth profiad y claf.
- Perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol a rhagolygon y cytunwyd arnynt.
- Tuedd perfformiad hanesyddol er mwyn nodi patrymau a newidiadau.
- Tystiolaeth o welliant o ran lleihau amrywiad clinigol.

28. Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo dull gweithredu 'dim byd annisgwyl' ac yn helpu i nodi materion a phryderon sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, er mwyn ymdrin â nhw cyn iddynt gael effaith sylweddol neu cyn i berfformiad ddirywio ymhellach. Disgwylir i sefydliadau'r GIG gynnal perthynas â Perfformiad a Gwella GIG Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu newidiadau gwirioneddol neu arfaethedig mewn perfformiad yn brydlon. Pan fydd risgiau'n berthnasol i'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy, mae angen eu rheoli a'u huwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru.

### Cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig

29. Mae'r rhain yn gyfarfodydd misol a gadeirir gan Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru neu ei ddirprwy enwebedig. Mae Cyfarfodydd Ansawdd Cynllunio a Chyflawni Integredig yn asesu perfformiad yn erbyn y safonau cenedlaethol, yn ystyried ansawdd a diogelwch cyffredinol gwasanaethau ac yn cynnal archwiliadau dwfn o bynciau penodol.

### Cyfarfodydd Uwchgyfeirio


30. Bydd cyfarfod uwchgyfeirio ffurfiol yn cael ei gynnal â phob sefydliad sydd â statws wedi'i uwchgyfeirio. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn monitro cynnydd yn erbyn meini prawf isgyfeirio penodol y cytunwyd arnynt.

### Cyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol

31. Caiff cyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, a'u cadeirio gan Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn craffu ar

ansawdd, prosesau cynllunio, darpariaeth a pherfformiad gan gynnwys asesu perfformiad cyffredinol y sefydliad o ran y gofynion cenedlaethol, ei gynllun ac unrhyw amodau atebolrwydd.

32. Mae’r diagram isod yn amlinellu trefniadau llywodraethiant y cyfarfodydd:




33. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei Fwrdd Ansawdd a Chyflawni misol i gyfarfod â chydweithwyr o Perfformiad a Gwella GIG Cymru a phartïon allweddol eraill i drafod pob sefydliad a’r materion sy’n peri pryder.

# 5. UWCHGYFEIRIO AC YMYRRYD

34. Mae'r GIG yng Nghymru yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl i gleifion bob amser. Fodd bynnag, mae problemau'n codi ar adegau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau, effeithiolrwydd sefydliadol ac ansawdd a diogelwch gofal. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r sefydliad o dan sylw yn ymateb yn briodol. Fodd bynnag, ar adegau, mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio, archwilio, arolygu a rheoleiddio'r system gofal iechyd gymryd camau wedi'u cydgysylltu. Trwy rannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn effeithiol, bydd modd nodi pryderon difrifol posibl yn gynnar yn y broses.

35. Bydd Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn gweithio gyda'i gilydd a chyda sefydliadau perthnasol GIG Cymru i sicrhau bod camau ymatebol priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â phryderon a materion a godwyd.

36. Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yn ei galluogi i geisio sicrwydd bod sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cyflawni blaenoriaethau ac yn codi safonau. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae dangosyddion perfformiad amrywiol ar waith er mwyn monitro sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Os oes awgrym bod sefydliadau'r GIG yn tanberfformio, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r mater gyda sefydliad perthnasol y GIG, ac os caiff problemau eu nodi, bydd yn ofynnol i'r sefydliad hwnnw roi camau unioni ar waith.

37. Bydd Llywodraeth Cymru, AGIC ac Archwilio Cymru yn cyfarfod bob chwe mis (ac yn amlach os daw pryderon difrifol i'r amlwg) i rannu gwybodaeth a nodi materion yn gynnar er mwyn eu datrys yn effeithiol. Gelwir y cyfarfod hwn yn gyfarfod teirochrog.

38. Bydd uwchgyfeirio i lefel 2 ac isgyfeirio o lefel 2 (ymyrraeth gefnogol) yn digwydd yn ôl yr angen a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau fel sy'n briodol.

39. Dylai sefydliad y GIG gysylltu â Llywodraeth Cymru ei hun i dynnu sylw at faterion posibl a thrafod datrysiadau arfaethedig. Gall hyn arwain at sefydliad y GIG yn gofyn i Lywodraeth Cymru neu gyrff adolygu allanol ystyried gwneud darn penodol o waith mewn ymateb i'r materion hyn.


40. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn ymwneud ag uwchgyfeirio ac isgyfeirio, a bydd yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ôl asesu tystiolaeth a gwybodaeth amrywiol gan gynnwys, ymysg pethau eraill, yr wybodaeth a rennir gan y cyfranogwyr teirochrog.

41. Dyma'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r broses uwchgyfeirio ac ymyrryd:


- Mae'r trefniadau wedi'u seilio ar rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol, a fydd yn cael ei defnyddio i nodi pryderon difrifol.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu sefydliad y GIG am y rhesymau dros uwchgyfeirio ac ymyrryd os oes angen rhoi'r dulliau gweithredu hyn ar waith.

- Bydd ffurf a lefel y camau gweithredu yn gymesur â difrifoldeb y mater a'r angen i sicrhau gwelliant prydlon ac effeithiol.
- Bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG ddarparu ymatebion cywir a phrydlon i geisiadau am wybodaeth, a chydweithredu â'r camau sy'n cael eu cymryd.
- Gellir uwchgyfeirio'r mater i unrhyw lefel yn y fframwaith, gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y pryder/mater.
- Bydd y meini prawf ar gyfer isgyfeirio a chynaliadwyedd yn cael eu cytuno â chorff y GIG drwy fframwaith isgyfeirio ffurfiol. Bydd corff y GIG yn cyhoeddi'r fframwaith cynnydd drwy gyfarfodydd ei Fwrdd a/neu ei Bwyllgor.
- Bydd y broses isgyfeirio yn digwydd un lefel ar y tro, a bydd lefel yr oruchwyliaeth a'r ymyrraeth yn lleihau yn ystod pob cam isgyfeirio. Bydd y broses isgyfeirio o lefel 3 a lefel 2 yn arwain at ddychwelyd i drefniadau arferol.

42. Ceir pum lefel yn y fframwaith hwn:




43. Mae'r siart lif a'r paragraffau isod yn nodi sut y bydd proses GIG Cymru yn cael ei rhoi ar waith:



**Lefel 1 - Trefniadau Arferol**

44. Pan fydd trefniadau arferol ar waith, mae sefydliad y GIG yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan, ac mae unrhyw broblemau yn cael eu nodi yn briodol yn rhan o'r trefniadau goruchwylio arferol, ac nid o dan unrhyw fath o ymyrraeth. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethiant priodol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gofal diogel o ansawdd i gleifion, yn unol â'r safonau iechyd a gofal o ansawdd.

**Lefel 2 - Maes sy'n peri Pryder**

45. O bryd i'w gilydd, gall y trefniadau arferol a amlinellir uchod amlygu pryder sy'n dod i'r amlwg ac sy'n ddifrifol ei natur o bosibl o ran darparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol sefydliad y GIG. Os daw pryder o'r fath i'r amlwg, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r sefydliad neu'r cyrff iechyd i archwilio natur a lefel y pryder hwn.

46. Caiff pryder sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol ei godi pan ymddengys bod difrifoldeb, amlder neu hirhoedledd problemau yn fwy na'r hyn y gellir ymdrin â nhw drwy drefniadau arferol.

47. Gall pryderon gael eu sbarduno gan ddadansoddiad o ddigwyddiadau difrifol, digwyddiad unigol neu gyfuniad o ffactorau a allai fod yn gysylltiedig â meysydd fel:

- Methu â bodloni un o'r safonau ansawdd, rhai ohonynt neu bob un ohonynt.
- Ansawdd a diogelwch gofal.
- Capasiti a galluogrwydd.
- Rheolaeth ariannol.
- Cynllunio.
- Trefniadau llywodraethiant.
- Problemau perfformiad.
- Pa mor ddigonol yw ymateb sefydliad y GIG i fynd i'r afael â'r pryder.

48. Bydd ceisiadau am wybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r gwerthusiad hwn yn cael eu gwneud i sefydliad y GIG a thrydydd partïon perthnasol. Os nad yw natur y broblem na'r hyn sy'n ei hachosi yn amlwg, gall Llywodraeth Cymru, a chyrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, benderfynu bod darn byr o waith penodol yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â sefydliad y GIG er mwyn archwilio'r pryder ymhellach.

49. Bydd sefydliad y GIG yn cael ei hysbysu'n ffurfiol bod Llywodraeth Cymru a/neu gyrff adolygu allanol o'r farn bod yna bryder a allai beryglu'r broses o ddarparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol. Bydd Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol, fel sy'n briodol, yn gweithio'n agos gyda chorff y GIG i sicrhau bod pryderon sy'n dod i'r amlwg yn cael eu harchwilio a bod achos neu achosion y pryderon yn cael eu deall. Ceir trosolwg o'r broses lefel 2 yn Atodiad 2.

### Lefelau 3 – 5 Uwchgyfeirio

50. Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyfranogwyr teirochrog yn cyfarfod o leiaf bob chwe mis (ac yn amlach os daw pryderon difrifol i'r amlwg) i rannu gwybodaeth a nodi materion yn gynnar er mwyn gallu eu datrys yn effeithiol.

51. Wedi'r cyfarfodydd hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth cyn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch statws uwchgyfeirio'r sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys sail resymegol glir ar gyfer yr uwchgyfeirio neu isgyfeirio arfaethedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud yr argymhellion hyn ar sail ystod eang o wybodaeth.

52. Fel arfer, bydd y broses uwchgyfeirio yn cael ei rhoi ar waith os oes tystiolaeth yn dangos nad oes gwelliant digonol a phrydlon yn digwydd. Gan ddibynnu ar natur y mater o dan sylw, gellir ei uwchgyfeirio i unrhyw lefel ar y raddfa ymyrraeth. Hefyd, gallai'r ymyrraeth fod yn berthnasol i sefydliad y GIG yn ei gyfanrwydd neu i swyddogaeth neu wasanaeth penodol o fewn y sefydliad.

53. Bydd penderfyniadau uwchgyfeirio yn seiliedig yn rhannol ar asesu lefel y cymorth sydd ei angen, gan amrywio o ddim anghenion cymorth penodol i'r gofyniad am gymorth dwys yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf gwrthrychol a barn. Nid yw'n pennu gofynion cymorth penodol. Bydd y gofynion hyn yn cael eu nodi gan y meini prawf a amlinellir yn y disgrifiad o'r lefelau uwchgyfeirio yn Atodiad 1.

54. Gall penderfyniadau yn ymwneud â dewis a threfn ymyrryd ddibynnu ar sut y mae mater neu faterion difrifol yn dod i'r amlwg ac ymateb sefydliad y GIG.

55. Nid yw ymyrraeth yn cael ei sbarduno gan y broses hon yn unig; mae Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn cadw'r hawl i gymryd camau unigol fel sy'n briodol yn eu barn nhw, gan hysbysu rhanddeiliaid eraill.

56. Ym mhob achos, bydd Llywodraeth Cymru a chyrff allanol, fel sy'n briodol, yn gweithio gyda chorff y GIG i gytuno ar amserlen glir ar gyfer gwelliant disgwyliedig.

57. Yn dilyn penderfyniad i uwchgyfeirio sefydliad, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith uwchgyfeirio y cytunir arno gan swyddogion Llywodraeth Cymru a thîm gweithredol y bwrdd iechyd. Bydd y fframwaith yn nodi'r rhesymau dros y camau uwchgyfeirio, y gofynion a'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio. Rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau bod gan eu Byrddau olwg glir o'r gofynion sydd yn y fframwaith yn ogystal â chyhoeddi'r fframwaith uwchgyfeirio ar eu gwefannau.

### Lefel 3 - Monitro Uwch

58. Bydd uwchgyfeirio i lefel 3 yn digwydd pan fydd pryderon difrifol wedi'u nodi. Fel y nodir ym mharagraff 47, gall hyn gynnwys heriau perfformiad parhaus, diffyg ariannol cynyddol, a methu â llunio cynllun tymor canolig integredig.

59. Bydd angen i sefydliad y GIG ddangos ei fod yn mabwysiadu ymateb rhagweithiol er mwyn rhoi prosesau effeithiol ar waith i fynd i'r afael â'r mater

neu'r materion a sbarduno gwelliant ei hun. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydlynu gweithgarwch er mwyn monitro, herio ac adolygu cynnydd yn agos.

60. Bydd gweithgarwch monitro yn digwydd yn amlach o gymharu â threfniadau arferol, ac mae'n bosibl y bydd angen dulliau monitro ehangach, er enghraifft rhyngweithio a chyfarfodydd rheolaidd yn ogystal â diweddariadau cynnydd ysgrifenedig a chyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys cynlluniau gweithredu wedi'u diweddaru a data ansoddol a meintiol.

**Lefel 4 - Ymyrraeth wedi'i Thargedu**

61. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ar waith gamau gweithredu ac ymyrraeth uniongyrchol a'u cydgysylltu i gynorthwyo sefydliad y GIG i gryfhau ei alluogrwydd a'i gapasiti er mwyn ysgogi gwelliant.

62. Gallai camau gweithredu Llywodraeth Cymru gynnwys trefnu sesiynau mentora ar gyfer aelodau unigol o'r bwrdd neu'r tîm gweithredol a phenodi unigolion profiadol i'r Bwrdd sydd â'r sgiliau clinigol a/neu lywodraethiant angenrheidiol i weithredu fel cynghorwyr annibynnol am gyfnod penodol.

**Lefel 5 - Mesurau Arbennig**

63. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) neu Archwilydd Cyffredinol Cymru nodi pryderon ynghylch sefydliad y GIG, y gall Gweinidogion Cymru, o ganlyniad, ymyrryd yn unol â'r hyn a nodir yn Neddf GIG (Cymru) 2006 [adrannau 26-28] a'r rheoliadau cysylltiedig.

64. Gall camau ymyrryd gan Weinidogion Cymru gynnwys pecyn cymorth wedi'i dargedu ac atal neu ddileu pwerau a dyletswyddau aelodau unigol neu holl aelodau Bwrdd sefydliad y GIG.

65. Pan fo materion difrifol ar draws yr holl barthau uwchgyfeirio, gall Llywodraeth Cymru benderfynu rhoi'r sefydliad cyfan ar lefel 5. Pan fo hyn yn digwydd, cytunir ar ddisgwyliadau isgyfeirio ar gyfer pob un o'r chwe pharth. Yn dibynnu ar y cynnydd a wneir yn erbyn y disgwyliadau isgyfeirio, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried isgyfeirio'r sefydliad yn llawn i lefel 4 pan fydd yn fodlon bod cynnydd rhesymol yn cael ei wneud ar draws yr holl barthau. Fel arall, gellir ystyried isgyfeirio'n rhannol i lefel 4 ar gyfer un neu ragor o barthau pan fo cynnydd rhesymol yn y parthau sy'n cael eu hadolygu.

66. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru ystyried defnyddio Cyfarwyddyd neu Bwerau Argyfwng sy'n caniatáu iddynt gyfarwyddo bod swyddogaeth sefydliad y GIG yn cael ei chyflawni gan gorff arall am gyfnod penodol.

67. Ystyrir bod y pwerau ffurfiol hyn yn ddewis olaf, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio oni bai bod ymyrraeth arall yn annhebygol o lwyddo.

# 6. CYMORTH WEDI'I DARGEDU

68. Mae cymorth wedi'i dargedu yn gymwys i sefydliadau ar lefel 4 neu lefel 5 o'r Fframwaith, a bydd yn cael ei gymhwyso pan fo problemau difrifol wedi dod i'r amlwg yn y sefydliad a phan fo pryderon nad yw'r arweinyddiaeth bresennol yn gallu cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol heb gymorth. Bydd cymorth wedi'i dargedu yn cynnwys cyfres o ymyraethau sy'n ceisio datrys y problemau o fewn amserlen resymol.

69. Bydd pob pecyn cymorth yn cael ei greu a'i ddarparu yng nghyd-destun y sefydliad perthnasol. Bydd anghenion cymorth penodol yn cael eu hadolygu drwy gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd a threfniadau goruchwylio uwch ychwanegol pan fo angen iddynt wneud y canlynol:

- Olrhain gwelliant a deall effeithiolrwydd y mesurau cymorth amrywiol.
- Sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu er mwyn cael yr effaith fwyaf.


70. Yn rhan o'r broses hon, cynhelir asesiad i ystyried difrifoldeb, graddfa a chymhlethdod y materion sy'n wynebu'r sefydliad gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy archwilio ansawdd, gwybodaeth bresennol, trafodaethau a gwybodaeth gan bartneriaid, gan gynnwys tystiolaeth o ymchwiliadau ffurfiol neu anffurfiol. Yn rhan o hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar arbenigedd a chyngor cydweithwyr cenedlaethol. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio sefydliadau allanol ac ymgynghorwyr annibynnol fel sy'n briodol.

71. Yn ystod yr asesiad, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- Graddau'r risg a'r effaith bosibl.
- I ba raddau y mae'r sefydliad yn deall beth sy'n sbarduno'r mater neu'r materion.
- Safbwyntiau am arweinyddiaeth, llywodraethiant ac aeddfedrwydd y dull gweithredu ar gyfer gwella.
- Gallu'r sefydliad a hygrededd ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r mater neu'r materion.
- Camau blaenorol i gynorthwyo'r sefydliad i ddatrys y mater neu'r materion.
- I ba raddau y mae'r sefydliad yn cyflawni yn erbyn y rhagolygon adfer.
- Cytuno ar y meini prawf cynaliadwyedd ac isgyfeirio y mae'n rhaid i'r sefydliad eu bodloni.

# 7. PARTHAU UWCHGYFEIRIO

72. Gellir uwchgyfeirio sefydliad y GIG oherwydd unrhyw un neu bob un o'r parthau a nodir isod:




73. Bydd meysydd ymchwilio o dan bob parth yn cynnwys (ymysg pethau eraill) yr arsylwadau a ganlyn:

**Parth 1 – Llywodraethiant ac Arweinyddiaeth**

- A yw'r bwrdd yn gweithredu mewn ffordd gydlynus ac unedig?
- A oes cynllun datblygu ac olyniaeth clir ar waith ar gyfer y bwrdd?
- A oes rolau ac atebolrwydd clir ar waith mewn perthynas â llywodraethiant (gan gynnwys ansawdd, cyllid, a llywodraethiant corfforaethol a gwybodaeth)?
- A oes prosesau sydd wedi'u diffinio'n glir a'u deall yn dda ar waith ar gyfer uwchgyfeirio a datrys materion a rheoli perfformiad?
- A yw'r Bwrdd yn mynd ati i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill?
- A oes gan y Bwrdd y sgiliau a'r gallu i arwain y sefydliad?
- A yw'r Bwrdd yn hyrwyddo dysgu a datblygiad parhaus ledled y sefydliad?
- A oes cyfrifoldebau, rolau a systemau atebolrwydd clir ar waith i gynorthwyo prosesau llywodraethiant a rheoli da?
- Beth yw dull gweithredu'r Bwrdd ar gyfer sicrhau cynllun digidol clir sy'n cynnwys llywodraethiant gwybodaeth, llywodraethiant digidol, cynlluniau buddsoddi, systemau clinigol, trawsnewid a seiberddiogelwch?
- A yw'r Bwrdd yn llywio diwylliant agored a thryloyw sy'n canolbwyntio ar ansawdd?
- A oes tystiolaeth bod staff yn gallu codi llais yn ddiogel a'u bod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt, ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd?
- A oes gan yr arweinyddiaeth y capasiti a'r gallu i ddarparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel?
- A oes gan y Bwrdd weledigaeth glir a strategaeth gredadwy?

- A oes prosesau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risgiau a phroblemau?

**Parth 2 – Iechyd y boblogaeth ac atal**

- A oes gan y bwrdd strategaeth gofal sylfaenol a chymunedol effeithiol?
- A yw dyheadau'r bwrdd yn seiliedig ar ddatblygu gofal yn agosach i'r cartref a defnyddio gwasanaethau cymunedol yn effeithiol?
- Pa mor effeithiol yw'r sefydliad o ran ymateb i heriau ym maes gofal sylfaenol a chymunedol? A yw'r broses uwchgyfeirio yn effeithiol ac a oes digon o wasanaethau ar gyfer y boblogaeth?
- A yw gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn cael eu rheoli'n dda?
- A oes gan y Bwrdd strategaeth effeithiol o ran iechyd y boblogaeth ac atal?
- A yw canlyniadau'n cael eu mesur a'u monitro'n briodol, gan nodi unrhyw newidiadau, ymchwilio iddynt a'u gweithredu'n brydlon?
- Pa mor effeithiol yw'r rhaglenni atal fel rheoli pwysau a rhoi'r gorau i ysmygu?
- Pa strategaethau sydd ar waith i gynyddu'n briodol nifer y rhai sy'n manteisio ar apwyntiadau sgrinio a brechiadau?
- A yw pryderon diogelwch yn cael eu nodi yn gyson a'u datrys yn gyflym?
- A yw canlyniadau gofal a thriniaeth yn cael eu monitro a'u meincnodi'n briodol â gwasanaethau tebyg eraill?
- A yw staff a thimau yn gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol a chydweithredol, ac a ydynt yn ceisio cymorth neu fewnbwn timau a gwasanaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol?
- A yw gwasanaethau o dan gontract yn cael eu rheoli'n briodol?

**Parth 3 – Perfformiad a chanlyniadau**

- A yw perfformiad yn cyd-fynd â llwybrau y cytunwyd arnynt a gofynion cenedlaethol?
- A yw materion yn cyflawni yn erbyn amodau'r cynllun ac amodau atebolrwydd a nodwyd, gan sicrhau yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol?
- A yw canlyniadau'n cael eu mesur a'u monitro'n briodol, gan nodi unrhyw newidiadau, ymchwilio iddynt a'u gweithredu'n brydlon?
- A oes cynlluniau ar waith i gyflawni gwelliannau o ran cynhyrchiant fel y cytunwyd arnynt gan fwrdd y rhaglen genedlaethol a chyrff perthnasol eraill?
- A yw gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu neu o dan gontract yn cael eu rheoli'n briodol?

**Parth 4 – Cyllid, strategaeth a chynllunio**

- A oes gan y bwrdd strategaeth gredadwy i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd i gleifion, ac a oes ganddo gynllun cadarn i roi'r strategaeth ar waith?
- A yw'r sefydliad yn gallu cyflawni amodau'r cynllun a'r amodau atebolrwydd?
- A oes gan y cynllun ariannol ddiffyg sylfaenol sylweddol a/neu fwlch sylweddol?
- A yw'r fframwaith llywodraethiant ariannol a rheolaeth ariannol y bwrdd iechyd yn gadarn o ran ei ddyluniad a'i weithrediad, gan gynnwys hunanasesiad yn erbyn fframweithiau arferion gorau?
- A yw strwythur y pwyllgor cyllid wedi'i amlinellu'n glir, ac a yw'n ymdrin yn weithredol â risgiau allweddol?

- A yw risgiau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac nid yw ystyriaethau ariannol (er enghraifft rhaglenni effeithiolrwydd) yn cael effaith andwyol ar ofal cleifion a chanlyniadau?
- A oes gan y bwrdd strategaeth cyfalaf ac ystadau gredadwy i sicrhau adeiladau gofal iechyd diogel ac o ansawdd uchel sy'n gallu cynnal anghenion presennol gwasanaethau a'u hanghenion yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd a chynnal a chadw effeithiol o'r ystad bresennol yn ogystal â blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf clir?
- A yw egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad ac a yw cynlluniau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn cael eu cyflawni?
- A oes cynllun integredig a fydd yn cyflawni naill ai sefyllfa o fantoli'r cyfrifon neu'r cyfanswm rheoli targed y cytunwyd arno sy'n dangos cynnydd tuag at gyflawni ac effeithlonrwydd gwasanaethau gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael?
- A yw cynllunio integredig yn amlwg ar draws y sefydliad, gan ddarparu trywydd tuag at uchelgais hirdymor y bwrdd iechyd?
- A yw'r sefydliad yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r targedau gweinidogol, y disgwyliadau cyflawni a chamau gweithredu galluogi a'r meini prawf atebolrwydd?
- A yw'r sefydliad yn gallu dangos sut y mae'r strategaeth a'r cynllun clinigol yn ysgogi penderfyniadau ar draws y sefydliad ac a yw'r strategaeth a'r cynllun clinigol yn cefnogi penderfyniadau cynllunio a buddsoddi yn y dyfodol?
- A oes gan y sefydliad drefniadau cadarn ar waith i weithio gyda phartneriaid, a lle bo hynny'n briodol, darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol?

**Parth 5 – Ansawdd gofal**

- A yw pryderon penodol am wasanaethau a risgiau i ansawdd neu ddarpariaeth yn cael eu nodi'n gyflym, ac a oes camau gweithredu neu amserlenni priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw?
- A oes risgiau uwch bod pobl yn cael eu niweidio a/neu fod diffyg sicrwydd am ddiogelwch yn cael ei nodi a'i drin mewn ffordd amserol?
- A oes modd cael gafael ar wybodaeth yn ddiogel er mwyn llywio penderfyniadau clinigol?
- A yw'r arweinyddiaeth, y prosesau llywodraethiant a'r diwylliant yn helpu i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?
- A yw systemau, prosesau a gweithdrefnau gweithredu safonol yn ddibynadwy ac yn briodol i gadw pobl yn ddiogel?
- A yw pryderon diogelwch yn cael eu nodi neu eu datrys yn gyflym?
- A yw pobl yn cael gofal effeithiol a/neu a oes sicrwydd digonol ar waith?
- A yw gofal a thriniaeth bob amser yn adlewyrchu canllawiau, safonau, arferion gorau a thechnolegau presennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth?
- A yw staff yn ymwybodol o bryderon, digwyddiadau neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd?
- A yw'r bwrdd iechyd yn casglu adborth gan gleifion, yn ei ddadansoddi, yn ymateb iddo ac yn gweithredu arno?
- A yw defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan lawn yn y penderfyniadau ynghylch gofal?

## Parth 6 – Gwasanaethau Clinigol

- A yw data canlyniadau a data clinigol yn dangos bod y gwasanaeth yn allanolyn?
- A yw staff a chleifion yn rhoi gwybod am ragor o ddigwyddiadau, cwynion, pryderon, a phroblemau?
- A yw pobl yn ddiogel a ddim yn wynebu perygl mawr o niwed y gellir ei osgoi?
- A yw canlyniadau gofal a thriniaeth yn cael eu monitro a'u meincnodi'n briodol â gwasanaethau tebyg eraill, er mwyn nodi unrhyw wasanaethau sy'n amrywio'n ormodol neu sy'n sylweddol waeth, ac a oes camau priodol yn cael eu cymryd?
- A yw staff a thimau'n gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol a chydweithredol, ac a ydynt yn gofyn am gymorth neu fewnbwn gan dimau a gwasanaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol?
- A yw caniatâd yn cael ei sicrhau neu ei gofnodi bob amser yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol?
- A yw gwasanaethau gan ddarparwyr eraill yn cael eu comisiynu'n effeithiol?
- A yw'r berthynas â chomisiynwyr yn effeithiol? A yw comisiynwyr wedi uwchgyfeirio'r sefydliad, a pha mor effeithiol y mae ymateb y sefydliad wedi bod i'r broses uwchgyfeirio?
- A yw gofal a thriniaeth pobl yn adlewyrchu canllawiau, safonau, arferion gorau neu dechnoleg bresennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

# 8. ISGYFEIRIO

74. Nod cyffredinol y Fframwaith hwn yw cynorthwyo sefydliadau'r GIG, yn amodol ar drefniadau ymyrryd, i roi'r gwelliant gofynnol ar waith a mynd i'r afael ag unrhyw fater neu faterion yn effeithiol er mwyn dechrau'r broses isgyfeirio unwaith y bydd gwelliannau wedi'u nodi a'u cynnal.

75. Er mwyn ystyried y broses ar gyfer isgyfeirio sefydliad, rhaid iddo ddangos ei fod wedi bodloni'r meini prawf isgyfeirio mewn modd cyson.

76. Lle bynnag y bo'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu gweithgarwch er mwyn monitro, herio ac adolygu'n agos gynnydd sefydliad y GIG. Os yw sefydliad y GIG yn gallu darparu tystiolaeth o welliant digonol a phrydlon, bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth er mwyn eu galluogi i ystyried a yw proses isgyfeirio'r trefniadau ymyrryd a gyflwynwyd ar gyfer sefydliad y GIG yn briodol.

77. Bydd isgyfeirio'r meysydd hynny sydd â chanlyniadau a thargedau mesuradwy fel perfformiad a chanlyniadau yn digwydd unwaith y bydd y meini prawf isgyfeirio wedi'u bodloni a'u cynnal am y cyfnod amser y cytunwyd arno. Os yw sefydliad y GIG yn bodloni'r meini prawf isgyfeirio ar gyfer parth neu is-barth penodol, bydd yn cael ei isgyfeirio i'r lefel nesaf ar y raddfa isgyfeirio. Bydd y broses isgyfeirio hon yn cael ei rhoi ar waith yn awtomatig y tu allan i'r cylch uwchgyfeirio arferol a bydd yn cael ei chadarnhau yn ysgrifenedig i'r sefydliad a'i lledaenu'n ehangach drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

78. Bydd isgyfeirio yn golygu symud i lefel nesaf y raddfa isgyfeirio, a bydd y gofynion goruchwylio ac adrodd yn lleihau ym mhob cam o'r broses isgyfeirio.

# ATODIAD 1 – DISGRIFIAD O'R LEFELAU UWCHGYF-EIRIO

**1 - Trefniadau arferol**

Disgrifiad

- Cyflwr sefydlog "yn unol â'r cynllun" ac adroddiadau arferol.
- Perfformio'n uchel yn gyson.
- Mae'r galluogrwydd a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni wedi'u datblygu'n dda.
- Nid oes unrhyw anghenion cymorth penodol wedi'u nodi.

Disgwyliad neu ymddygiad y sefydliad

Llywodraeth Cymru

- Gwyliadwriaeth a goruchwyliaeth drwy ddulliau adrodd arferol a chyfarfodydd wedi'u trefnu, fel adolygiadau blynyddol/canol blwyddyn y Cyd-dîm Gweithredol.

Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig

- Yn gyfrifol am gynnal trefniadau llywodraethiant priodol i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol a'i fod yn darparu neu'n cyfrannu at ofal diogel o ansawdd i gleifion.
- Mae arweinwyr ar gael, yn hawdd mynd atynt, ac yn croesawu her. Mae ganddynt weledigaeth glir a strategaeth gredadwy i ddarparu gofal cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl, a chynlluniau cadarn i ddarparu diwylliant o ofal cynaliadwy o ansawdd uchel.
- Cyfrifoldebau, rolau a systemau atebolrwydd clir i gynorthwyo prosesau llywodraethiant a rheoli da.
- Prosesau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risgiau, problemau a pherfformiad.
- Mae gwybodaeth briodol a chywir yn cael ei phrosesu, ei herio a gweithredu arni'n effeithiol.
- Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd, staff a phartneriaid allanol yn cymryd rhan yn y broses o gefnogi gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel.
- Mae prosesau cadarn ar waith ar gyfer dysgu, gwelliant parhaus ac arloesi.

Meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio posibl i lefel uwch

- Datblygu cynllun tair blynedd cytbwys.
- Perfformiad yn erbyn gofynion cenedlaethol.
- Cyflawni yn erbyn y cynllun ac unrhyw amodau atebolrwydd.
- Pryderon penodol am y gwasanaeth wedi'u nodi, risgiau i ansawdd neu ddarpariaeth heb nodi unrhyw gamau priodol neu amserlenni i fynd i'r afael â nhw.
- Mae pobl mewn perygl o beidio â derbyn gofal neu driniaeth effeithiol, neu mae diffyg cysondeb o ran effeithiolrwydd gofal, triniaeth a chymorth.

Meini prawf ar gyfer isgyfeirio posibl i lefel is

Amherthnasol.

**2 – Maes sy'n peri pryder**

Disgrifiad

- Rhywfaint o amrywiad oddi wrth y cynllun, risg i ddarpariaeth os nad oes gweithredu.
- Mater wedi'i nodi yn ymwneud â gwasanaeth penodol, risgiau i ansawdd neu ddarpariaeth os nad oes gweithredu.
- Efallai y bydd angen cymorth lleol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â materion penodol a nodwyd.
- Ymateb rhagweithiol i roi prosesau effeithiol ar waith er mwyn sbarduno gwelliant o dan arweiniad bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth/awdurdod iechyd arbennig y GIG, sy'n cael ei fonitro gan brosesau sefydledig Llywodraeth Cymru.

Disgwyliad neu ymddygiad y sefydliad

Llywodraeth Cymru

- Gwyliadwriaeth a goruchwyliaeth drwy ddulliau adrodd arferol.

Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig

- Camau gweithredu rhagweithiol a datblygu cynllun adfer neu wella lleol.
- Gofyn am gyngor a chymorth penodol os oes angen.
- Caiff problemau eu monitro'n rheolaidd gan y tîm gweithredol drwy gynyddu prosesau gwyliadwriaeth a monitro lleol ac adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru.

Meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio posibl i lefel uwch

- Rhagolygon perfformiad yn gwaethygu yn erbyn rhai gofynion cenedlaethol.
- Problemau'n ymwneud â chyflawni yn erbyn amodau'r cynllun ac atebolrwydd.
- Pryderon penodol am y gwasanaeth wedi'u nodi, risgiau i ansawdd neu ddarpariaeth heb nodi unrhyw gamau priodol neu amserlenni i fynd i'r afael â nhw.
- Mwy o berygl bod pobl yn cael eu niweidio, neu sicrwydd cyfyngedig am ddiogelwch.

Meini prawf ar gyfer isgyfeirio posibl i lefel is

- Gwelliant cyson wrth fodloni gofynion cenedlaethol.
- Cymeradwyo cynllun tair blynedd cytbwys y mae modd ei gyflwyno.
- Caiff pobl eu diogelu rhag niwed y gellir ei osgoi gyda chanlyniadau da oherwydd eu bod yn cael gofal a thriniaeth effeithiol sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae arweinyddiaeth, llywodraethiant a diwylliant yn hyrwyddo darpariaeth gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### 3 – Monitro uwch

Disgrifiad

- Amrywiadau sylweddol oddi wrth y cynllun.
- Risgiau neu bryderon sylweddol wedi'u nodi neu'n dod i'r amlwg.
- Efallai y bydd angen camau gweithredu a/neu gymorth penodol.
- Ymateb rhagweithiol i roi prosesau effeithiol ar waith er mwyn ysgogi gwelliant y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol, sy'n cael ei fonitro'n agos a'i herio/adolygu ganddynt.
- Cymorth hyblyg sy'n cael ei ddarparu drwy gymorth gan gymheiriaid, rhwydweithiau clinigol neu raglenni cenedlaethol.

Disgwyliad neu ymddygiad y sefydliad

Llywodraeth Cymru

- Bydd gweithgarwch gwyliadwriaeth a monitro yn digwydd yn amlach nag o dan drefniadau arferol, ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys dulliau ehangach.

Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig

- Camau gweithredu wedi'u cydgysylltu i gryfhau'r gwasanaeth, gan gynnwys cynllun adfer neu wella ffurfiol, a cherrig milltir a chyfrifoldebau clir, wedi'u cytuno â Llywodraeth Cymru.
- Cyngor arbenigol allanol wedi'i ddarparu gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru a chyrff allweddol eraill os oes angen.

Meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio posibl i lefel uwch

- Rhagolygon perfformiad yn gwaethygu yn erbyn gofynion cenedlaethol.
- Methu â chyflawni yn erbyn amodau'r cynllun ac atebolrwydd.
- Diffyg sylfaenol sylweddol a/neu fwlch gwirioneddol neu fwlch a ragwelir yn y cynllun ariannol.
- Nid yw arweinyddiaeth, llywodraethiant a diwylliant yn addas bob amser i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Nid yw systemau, prosesau a gweithdrefnau gweithredu safonol yn ddibynadwy nac yn addas bob amser i gadw pobl yn ddiogel.
- Nid yw pryderon diogelwch yn cael eu nodi na'u datrys mewn modd cyson yn ddigon cyflym.
- Mae pobl yn cael gofal aneffeithiol, neu mae diffyg sicrwydd ar waith i ddangos bod y gwrthwyneb yn wir.
- Nid yw gofal a thriniaeth bob amser yn adlewyrchu canllawiau, safonau, arferion gorau a thechnolegau presennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Meini prawf ar gyfer isgyfeirio posibl i lefel is

- Gwelliant cyson wrth fodloni gofynion cenedlaethol a/neu fetrigau y cytunwyd arnynt.
- Cymeradwyo cynllun cytbwys y mae modd ei gyflawni.
- Caiff pobl eu diogelu gyda risg isel o niwed y gellir ei osgoi gyda chanlyniadau da yn sgil gofal a thriniaeth effeithiol.

**4 – Ymyrraeth wedi'i thargedu**

Disgrifiad

- Risgiau sylweddol i ddarpariaeth, ansawdd, perfformiad ariannol neu ddiogelwch
- Mae angen cymorth allanol lefel uwch.
- Camau gweithredu wedi'u cydgysylltu a/neu unochrog i geisio cryfhau capasiti a gallu y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth er mwyn ysgogi gwelliannau.
- Cymorth pwrpasol sy'n manteisio ar arbenigedd system a chenedlaethol yn ôl yr angen.

Disgwyliad neu ymddygiad y sefydliad

Llywodraeth Cymru

- Lefel uwch o wyliadwriaeth a monitro y tu allan i drefniadau arferol.
- Cymorth wedi'i dargedu yn cael ei ddarparu mewn cytundeb â'r sefydliad.

Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig

- Bydd y sefydliad yn nodi uwch swyddog cyfrifol i oruchwylio ymyrraeth cymorth gorfodol a nodi arweinwyr allweddol y sefydliad i hwyluso'r broses cymorth gorfodol.
- Ymgysylltu gweithredol â'r broses cymorth wedi'i dargedu ac ymrwymiad cadarn i roi'r hyn a ddysgir ar waith.
- Prosesau effeithiol o ran llywodraethiant a goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen wella, gan gynnwys arweinwyr, amserlenni a matrics aeddfedrwydd clir fel bod modd olrhain cynnydd.

Meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio posibl i lefel uwch

- Gostyngiad sylweddol yn lefel y perfformiad, neu lefel wael iawn yn gyson
- Nid yw darparu gofal o ansawdd uchel yn cael ei sicrhau gan yr arweinyddiaeth, y llywodraethiant na'r diwylliant.
- Nid yw systemau diogelwch, prosesau na gweithdrefnau gweithredu safonol yn addas i'r diben.
- Nid yw staff yn sylwi ar bryderon, digwyddiadau neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.
- Nid yw pobl yn ddiogel neu maent yn wynebu risg uchel o niwed y gellir ei osgoi.
- Nid yw gofal a thriniaeth yn adlewyrchu canllawiau, safonau, arferion gorau a thechnolegau presennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gwaith monitro cyfyngedig iawn, os o gwbl, o ganlyniadau gofal a thriniaeth. Mae canlyniadau'n amrywiol iawn neu'n waeth o lawer na'r disgwyl o gymharu â gwasanaethau tebyg eraill.
- Mae staff a thimau'n darparu gofal ar eu pennau eu hunain ac nid ydynt yn gofyn am gymorth neu fewnbwn gan dimau a gwasanaethau perthnasol eraill.
- Nid yw cydsyniad yn cael ei sicrhau na'i gofnodi bob amser yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Meini prawf ar gyfer isgyfeirio posibl i lefel is

- Gwelliant o ran cyflwyno'r metrigau y cytunwyd arnynt.
- Cynllun blynyddol wedi'i ddatblygu gyda chymeradwyaeth y bwrdd.
- Trefniadau llywodraethiant a goruchwylio effeithiol ar waith sy'n lleihau'r risgiau.
- Rhoi gwelliannau allweddol ar waith yn unol â'r meini prawf isgyfeirio a nodwyd.

## 5 – Mesurau Arbennig

Disgrifiad

- Materion difrifol a chymhleth iawn sy'n gysylltiedig â phryderon am ansawdd, llywodraethiant a/neu gyllid sydd angen cymorth dwys.
- Methiant trychinebus mewn arweinyddiaeth neu lywodraethiant a allai niweidio enw da'r GIG.
- Strwythur/cyfluniad y sefydliad yn methu â darparu gofal effeithiol.
- Mae'r trefniadau presennol yn gofyn am newid sylweddol.
- Bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd fel y nodir yn Neddf y GIG (Cymru) 2006.
- Darparu cymorth dwys wedi'i dargedu.

Disgwyliad neu ymddygiad y sefydliad

Llywodraeth Cymru

- Pwerau ymyrraeth gweinidogol a allai gynnwys atal neu ddileu pwerau a dyletswyddau aelodau unigol neu holl aelodau bwrdd/ymddiriedolaeth/awdurdod iechyd arbennig y GIG.
- Gall Gweinidogion Cymru ystyried defnyddio cyfarwyddyd neu bwerau argyfwng sy'n caniatáu iddynt gyfarwyddo bod swyddogaeth bwrdd/ymddiriedolaeth y GIG yn cael ei chyflawni gan gorff arall am gyfnod penodol.

Byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd arbennig

- Bydd y sefydliad yn nodi uwch swyddog cyfrifol i oruchwylio ymyrraeth cymorth gorfodol a nodi arweinwyr allweddol y sefydliad i hwyluso'r broses cymorth gorfodol.
- Ymgysylltu gweithredol â'r broses cymorth wedi'i dargedu ac ymrwymiad cadarn i roi'r hyn a ddysgir ar waith.
- Datblygu rhaglen wella gydag arweinwyr, amserlenni a matrics aeddfedrwydd clir fel bod modd cael gwybodaeth dryloyw ynghylch cynnydd.

Meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio posibl i lefel uwch

Amherthnasol.

Meini prawf ar gyfer isgyfeirio posibl i lefel is

- Trefniadau llywodraethiant ac arweinyddiaeth effeithiol ar waith.
- Gwasanaethau wedi'u sefydlogi sy'n dangos cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni y cytunwyd arno.
- Ymgysylltu â'r broses gymorth a dargedir.

# ATODIAD 2 – MAES SY'N PERI PRYDER LEFEL 2

**Beth yw uwchgyfeirio i lefel 2?**

Cafodd y broses o uwchgyfeirio i lefel 2 (maes sy'n peri pryder) ei chynnwys gyntaf yn y fframwaith goruchwylio ac uwchgyfeirio ym mis Ionawr 2024.

Mae uwchgyfeirio i lefel 2 yn galluogi Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru i ymateb yn briodol i bryderon sy'n dod i'r amlwg o fewn sefydliadau iechyd neu ar draws gwasanaeth o ran prydlondeb ac yn rhoi cyfle i archwilio graddau'r pryderon.

Caiff pryder sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol ei godi pan ymddengys bod difrifoldeb, amlder neu hirhoedledd problemau yn fwy na'r hyn y gellir ymdrin â nhw drwy drefniadau arferol.

Bydd lefel 2 yn cael ei defnyddio i ymateb i bryder penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch gofal a/neu effeithiolrwydd sefydliadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â sefydliad y GIG i archwilio natur a lefel y pryderon. Bydd disgwyl i sefydliad y GIG ymateb i'r pryderon hyn gan roi trefniadau lleol priodol ar waith.

**Pam y byddai gwasanaeth yn cael ei ddynodi yn wasanaeth lefel 2?**

Gall pryderon ddod i'r amlwg gan ddadansoddiad o ddigwyddiadau difrifol, digwyddiad unigol neu gyfuniad o ffactorau a allai fod yn gysylltiedig â meysydd fel y rhai a ganlyn:

- Methu â bodloni un o'r safonau ansawdd, rhai ohonynt neu bob un ohonynt.
- Ansawdd a diogelwch gofal.
- Capasiti a galluogrwydd.
- Rheolaeth ariannol.
- Cynllunio.
- Trefniadau llywodraethiant.
- Problemau perfformiad.
- Pa mor ddigonol yw ymateb sefydliad y GIG i fynd i'r afael â'r pryder.

Gallai sefydliad y GIG neu Lywodraeth Cymru/Perfformiad a Gwella GIG Cymru sbarduno'r broses.

Wrth ystyried uwchgyfeirio i lefel 2 a chytuno ar y broses honno, bydd Llywodraeth Cymru yn cwblhau adroddiad Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad (SBAR) manwl yn amlinellu'r pryderon a fydd yn adlewyrchu'r canlynol:

- Y rhesymau dros y pryderon a phwy sydd wedi eu codi
- P'un a yw sefydliad y GIG yn cydnabod bod problem ai peidio, ac os yw'n cydnabod, a yw wedi gweithredu'n gyflym ac wedi rhoi ar waith broses uwchgyfeirio mewnol neu drefniadau priodol
- A yw'r trefniadau yn ddigonol i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen neu a oes angen cymorth ychwanegol

**Sut y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynglŷn ag uwchgyfeirio i lefel 2?**

- Gellid codi pryderon sy'n dod i'r amlwg mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys drwy gyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig, cyfarfodydd o'r Cyd-Dîm Gweithredol, cyfarfodydd rheolaidd gyda'r bwrdd iechyd, datgeliadau neu adroddiadau gan AGIC, a phryderon neu ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.
- Bydd asesiad sylfaenol yn cael ei lunio, gan amlinellu'r pryderon yn fanwl. Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu gyda mewnbwn Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, sefydliad y GIG sy'n cynnwys y gwasanaeth sy'n peri pryder a sefydliadau eraill os yw'n briodol.
- Bydd yr asesiad sylfaenol yn cael ei drafod yn y Bwrdd Ansawdd a Chyflawni a arweinir gan Lywodraeth Cymru a bydd argymhellion yn cael eu gwneud i Dîm Cyfarwyddwyr Gweithredol Llywodraeth Cymru.
- Bydd uwchgyfeirio i lefel 2 ac isgyfeirio o lefel 2 yn digwydd yn ôl yr angen a bydd uwch swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau fel y bo'n briodol ac yn ymateb i bryderon sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol a phriodol.
- Yn dilyn penderfyniad i uwchgyfeirio, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:
    - Hysbysu sefydliad y GIG yn ffurfiol ynghylch yr uwchgyfeirio i lefel 2 a'r rhesymau dros hynny.
    - Trefnu cyfarfod â sefydliad y GIG i sicrhau bod y pryderon sy'n dod i'r amlwg yn cael eu harchwilio a bod achos neu achosion y pryderon yn cael eu deall. Bydd y cyfarfod yn cynnwys cyrff priodol i drafod y pryderon a'r camau sy'n cael eu cymryd.
    - Llunio a chytuno ar fframwaith maes sy'n peri pryder lefel 2 gan gynnwys y disgwyliadau ar gyfer gwella.
    - Cynnwys pwynt trafod ffurfiol ar agenda'r Cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig er mwyn trafod cynnydd.
    - Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i nodi cynnydd ac ystyried y camau nesaf gan gynnwys isgyfeirio posibl.
- Bydd sefydliad y GIG yn gwneud y canlynol:
    - Cynnal hunanasesiad neu adolygiad mewnol, os nad ydynt wedi'u cynnal eisoes, i ddeall natur y broblem.
    - Llunio cynllun gweithredu neu gynllun gwella ag iddo amcanion clir.
    - Darparu tystiolaeth o gynnydd / gweithredu rheolaidd.
- Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru a/neu Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:
    - Cynnal cyfarfod goruchwylio/gwerthuso rheolaidd gyda'r bwrdd iechyd.
    - Asesu'r cynnydd yn erbyn tystiolaeth a ddarperir.

<u>Adnoddau posibl i gynorthwyo sefydliadau'r GIG ar lefel 2 o ran prosesau a thystiol-aeth:</u>

- Templed hunanasesu
- 15 cam - 66269 PW Fifteen steps challenge new_Layout 1 (england.nhs.uk)
- Y tair llinell amddiffyn – The three lines of defence for assurance and reassurance | Blog | Good Governance Institute | Good Governance (good-governance.org.uk)
- Canllaw Cryno i Lywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru

# GEIRFA

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn awdurdod iechyd arbennig sy'n gyfrifol am gynllunio, comisiynu, darparu a sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru. Mae'n chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddarparu'r canlynol i'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru:

- addysg
- hyfforddiant
- datblygiad

**Ansawdd**

Gellir diffinio ansawdd fel diwallu anghenion y boblogaeth a wasanaethir mewn ffordd barhaus, ddibynadwy, a chynaliadwy. Mae'n ymwneud â darparu gofal iechyd diogel, amserol, effeithiol, effeithlon a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i wreiddio mewn diwylliant o ddysgu a gwella parhaus.

**Archwiliad Clinigol**

Proses ar gyfer monitro safonau gofal clinigol er mwyn canfod a yw'r gwaith yn cael ei wneud yn y ffordd orau bosibl (a elwir yn 'arferion gorau'). Gellir disgrifio archwiliad clinigol fel 'cylch' systematig. Mae'n ymwneud â mesur gofal yn erbyn meini prawf penodol, cymryd camau i'w wella os oes angen, a monitro'r broses i gynnal gwelliant.

**Archwilio**

Adolygiad systematig o ymarfer, proses neu berfformiad er mwyn canfod i ba raddau y mae'n bodloni meini prawf a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r weithdrefn yn cynnwys nodi problemau, datblygu atebion, gwneud newidiadau i ymarfer, ac yna adolygu'r holl weithrediad neu wasanaeth eto.

**Archwilio Cymru**

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol ar y cyd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n archwilio cyfrifon cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**

Arolygiaeth a rheoleiddiwr gofal iechyd annibynnol yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac mae'n darparu gwybodaeth am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd o bob math yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar wella diogelwch ac ansawdd, gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd a chryfhau llais cleifion a'r cyhoedd.
Atebolrwydd

Pan fydd sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod pethau'n digwydd ac yn gallu esbonio beth ddigwyddodd a pham.

**Awdurdod(au) iechyd arbennig**

Mae awdurdod iechyd arbennig yn gorff a sefydlir gan Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaethau y gallant eu cyfarwyddo ar eu rhan. Mae dau awdurdod iechyd arbennig yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn arwain gwaith yn ymwneud â phlatfformau digidol, systemau a gwasanaethau a chasglu a dadansoddi data'r gwasanaeth iechyd ledled Cymru.
- Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cyflawni swyddogaeth flaenllaw yng ngwaith addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd ledled Cymru.

**Bwrdd Iechyd**

Byrddau iechyd yw sefydliadau'r GIG yng Nghymru sy'n gyfrifol am iechyd y boblogaeth yn eu hardal ddaearyddol. Maent yn gyfrifol am gynllunio, datblygu a sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal mewn ysbytai a gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau deintyddiaeth, optometreg, fferylliaeth ac iechyd meddwl. Maent hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- gwella canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl
- hyrwyddo llesiant
- lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled eu poblogaethau
- comisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill er mwyn diwallu anghenion eu trigolion.

Mae yna saith bwrdd iechyd:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Bwrdd/Aelodau'r Bwrdd**

Y Bwrdd yw corff corfforaethol y bwrdd iechyd, yr ymddiriedolaeth neu'r awdurdod iechyd arbennig, ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Ei rôl yw pennu'r cyfeiriad strategol; sefydlu a chynnal y fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd, gan gynnwys gwerthoedd a safonau ymddygiad; a sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni drwy herio a chraffu ar berfformiad yn effeithiol ym mhob maes gweithgarwch.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, cyfarwyddwyr gweithredol, aelodau annibynnol ac aelodau cyswllt (nad ydynt yn pleidleisio).
Canlyniadau

Effaith prawf, triniaeth, polisi, rhaglen neu ymyrraeth arall ar berson, grŵp neu boblogaeth. Gan ddibynnu ar yr ymyrraeth, gallai'r canlyniadau gynnwys newidiadau mewn gwybodaeth ac ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd neu iechyd a llesiant pobl, nifer y cleifion sy'n gwella'n llawn o salwch neu nifer y derbyniadau i'r ysbyty, a gwelliant neu ddirywiad yn iechyd, symptomau neu sefyllfa rhywun.

**Canlyniadau clinigol**

Newidiadau penodol mewn iechyd neu ansawdd bywyd, o ganlyniad i'r driniaeth neu'r gofal meddygol a gafwyd.

**Comisiynu**

Comisiynu yw'r broses o brynu gwasanaethau'r GIG i ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth leol. Mae byrddau iechyd yn gweithredu fel comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

**Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru (Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gynt)**

Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru yn gyd-bwyllgor o'r saith bwrdd iechyd ac mae'n gweithredu ar ran pob un bwrdd ar y cyd. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae byrddau iechyd unigol yn atebol i'w poblogaeth a rhanddeiliaid eraill am ddarparu gwasanaethau a gomisiynir gan Gyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer y preswylwyr yn eu hardal.

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r trefniadau comisiynu cenedlaethol a oedd yn cael eu cynnal gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol.

Ym mis Ebrill 2024, gwnaeth y Cyd-bwyllgor ddisodli'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru a daeth yn gyfrifol am y gwasanaethau a gomisiynwyd yn flaenorol gan y pwyllgorau hyn a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol, ynghyd â chomisiynu gwasanaethau GIG 111 Cymru, a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Cymru.

**Cyfranogwyr teirochrog**

Y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd teirochrog yw Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

**Cynllun Tymor Canol Integredig**

Rhaid i bob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd arbennig yng Nghymru lunio cynllun tymor canolig integredig. Mae'r cynllun yn cwmpasu tair blynedd ariannol, yn unol â fframwaith cynllunio integredig Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu'r gofynion sylfaenol. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio dros gyfnod o dair blynedd i wella canlyniadau iechyd, ansawdd gofal a sicrhau'r gwerth gorau o adnoddau.

**Cyrff adolygu allanol**

Cyrff annibynnol sy'n adolygu sut y caiff gwasanaethau'r GIG eu llywodraethu a'u darparu. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

**Datganiadau Ansawdd**

Datganiad o fwriad lefel uchel sy'n disgrifio natur gwasanaethau "gorau" ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd penodol. Maent yn amlinellu nodweddion gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel ac yn adlewyrchu barn gyffredin am feysydd hanfodol i ganolbwyntio arnynt.

**Digwyddiad "byth"**

Rhywbeth a fyddai'n achosi niwed i bobl na ddylai byth ddigwydd ac y gellir ei atal.

Digwyddiad diogelwch claf Rhywbeth na ddylai ddigwydd sydd wedi achosi, neu a allai fod wedi achosi, niwed i rywun sy'n derbyn gofal iechyd. Dylid rhoi gwybod am y digwyddiadau hyn er mwyn eu hatal rhag digwydd eto.

**Dyletswydd Ansawdd**

Diben y ddyletswydd ansawdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli ein huchelgais i ddarparu gwasanaethau iechyd o safon gynyddol uwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

**Dyletswydd gonestrwydd**

Os oes rhywbeth yn mynd o'i le o ran y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu, mae gan y sefydliad sy'n darparu'r gofal ddyletswydd gyfreithiol i fod yn agored gyda'r person a'i deulu, egluro beth sydd wedi digwydd ac ymddiheuro.

**Fframwaith Ansawdd a Diogelwch**

Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch hwn yn disgrifio'r elfennau allweddol cyd-gysylltiedig y mae'n ofynnol iddynt weithio gyda'i gilydd bob amser er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn ansawdd, o ran cynllunio, gwella, a rheolaeth, a rhoi sicrwydd cyffredinol bod y system yn gweithio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer y bobl.

**Fframwaith Cynllunio**

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn darparu canllawiau penodol ar gyfer cyrff y GIG ynghylch datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys meysydd blaenoriaeth a chanllawiau ychwanegol gan raglenni cenedlaethol a gofynion polisi newydd.

**Fframwaith Perfformiad**

Mae Fframwaith Perfformiad GIG Cymru yn amlinellu sut y bydd GIG Cymru yn mesur ac yn adrodd ar berfformiad gwasanaethau gofal iechyd. Mae'n pennu nifer o fesurau perfformiad sy'n adlewyrchu meysydd blaenoriaeth y Gweinidog a swyddogaethau cymorth craidd sydd wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.
Fframweithiau

Mae fframweithiau'n cyfeirio at fframweithiau cynllunio, perfformiad ac ansawdd a diogelwch GIG Cymru.

**Gofal arbenigol**

Gofal i bobl sydd angen triniaethau arbenigol neu gymhleth iawn. Nid yw'r mathau hyn o driniaethau, fel trawsblaniadau neu lawdriniaeth ar yr ymennydd, ar gael ym mhob ysbyty lleol, ac mae'n rhaid iddynt gael eu darparu gan dimau arbenigol sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

**Gofal eilaidd**

Gofal eilaidd yw'r gofal iechyd a ddarperir mewn ysbytai. Mae'n cynnwys adrannau damweiniau ac achosion brys, adrannau cleifion allanol, gwasanaethau cynenedigol, meddygaeth genhedlol-wrinol a chlinigau iechyd rhywiol.

**Gofal sylfaenol**

Gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu y tu allan i ysbytai. Mae'n cynnwys gwasanaethau amrywiol sy'n cael eu darparu gan feddygon teulu, nyrsys, ymwelwyr iechyd, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol eraill a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd fel deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr.

**Gofal trydyddol**

Gofal i bobl sydd angen triniaethau cymhleth. Gall pobl gael eu hatgyfeirio i ofal trydyddol (er enghraifft, uned strôc ranbarthol) o ofal sylfaenol neu ofal eilaidd.

**Gwasanaethau clinigol neu wasanaethau bregus**

Gwasanaethau y gellir eu hystyried fel rhai sydd mewn perygl o fynd i'r wal ac sy'n fregus oherwydd cyfyngiadau fel diffyg gweithwyr neu bwysau mawr ar y gwasanaeth.

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn awdurdod iechyd arbennig sy'n gyfrifol am greu a dylunio gwasanaethau digidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n cyflawni swyddogaeth genedlaethol i gynorthwyo GIG Cymru i wneud y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau TG a datblygu'r trawsnewidiad digidol sydd ei angen i sicrhau iechyd a gofal gwell yng Nghymru. Dyma gyfrifoldebau allweddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru:

- Hwyluso trawsnewid digidol a sicrhau gofal o ansawdd uchel
- Ehangu mynediad at Gofnod Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Darparu gwasanaethau digidol o ansawdd uchel
- Galluogi dadansoddi data mawr ar gyfer canlyniadau gwell.

**Llwybr**

Llwybr claf yw'r llwybr y bydd claf yn ei ddilyn o'i gyswllt cyntaf â'r GIG (ei feddyg teulu fel arfer), y cam atgyfeirio, a diwedd y driniaeth.

**Llwybr Gofal**

Y llwybr y mae person yn ei ddilyn drwy wasanaethau gofal iechyd. Er enghraifft, gallai llwybr gofal ddangos y drefn ar gyfer cynnal profion gwahanol i wneud diagnosis o salwch, pa driniaethau y dylid rhoi cynnig arnynt, a phan fydd gofal yn symud o ofal sylfaenol i ofal eilaidd, neu o'r ysbyty yn ôl i ofal cymunedol.

**Llwybrau Clinigol**

Mae llwybrau clinigol yn gynlluniau rheoli amlddisgyblaethol safonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi dilyniant priodol o ymyriadau clinigol, amserlenni, cerrig milltir a chanlyniadau disgwyliedig ar gyfer grŵp o gleifion unffurf.

**Llywodraethiant**

Llywodraethiant (neu lywodraethiant corfforaethol) yw'r system sydd ar waith i gyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae'n ymwneud â sut y caiff sefydliad ei reoli – ei strwythur a sut y mae'n cael ei arwain. Dylai llywodraethiant fod yn sail i bopeth y mae sefydliad yn ei wneud. Yn y GIG mae hyn yn golygu bod yn rhaid i lywodraethiant gwmpasu agweddau clinigol, ariannol a sefydliadol.

**Llywodraethiant Clinigol**

Mae llywodraethiant clinigol yn fframwaith o brosesau, systemau a rheolaethau sy'n helpu sefydliadau'r GIG i ddangos atebolrwydd am wella ansawdd eu gwasanaethau

yn barhaus a diogelu safonau gofal uchel. Mae llywodraethiant clinigol da yn ymwneud â sefydlu amgylchedd lle y mae rhagoriaeth glinigol yn gallu ffynnu.

**Meincnod**

Mesur neu safon y gellir ei defnyddio i gymharu gweithgaredd, perfformiad, gwasanaeth neu ganlyniad. 'Meincnodi' yw'r broses o fesur perfformiad pobl neu sefydliadau sydd â nodweddion tebyg yn fras. Y nod yw gwella ansawdd drwy annog pob sefydliad neu wasanaeth i wella eu perfformiad eu hunain i safon y gorau.

**Mynediad**
Cyfle i ddefnyddio, caffael neu elwa ar rywbeth.

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad annibynnol, sydd ym mherchnogaeth GIG Cymru ac yn cael ei gyfarwyddo ganddo. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynorthwyo GIG Cymru drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid e.e. cyflogaeth (recriwtio, cyflogres a phensiynau), cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol a gwasanaethau caffael. Caiff ei chynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

**Perfformiad a Gwella GIG Cymru**

(Gweithrediaeth GIG Cymru gynt) Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn swyddogaeth cymorth cenedlaethol wedi'i lleoli yn y GIG yng Nghymru. Mae'n cynnwys y swyddogaethau a ganlyn:

- Perfformiad a sicrwydd- ei diben craidd yw sicrhau bod prosesau a mecanweithiau sicrwydd cadarn ar waith fel bod sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif am fodloni disgwyliadau a chanlyniadau a bennwyd gan y Llywodraeth.
- Cynllunio a chyflawni ariannol - mae'n sicrhau cynaliadwyedd a chyflawni ariannol, ochr yn ochr â sicrhau'r effaith a'r defnydd mwyaf posibl o wariant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant - diben y swyddogaeth hon yw rhoi'r cyfeiriad polisi a'r safonau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar waith er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd yng Nghymru, gan gynnwys:
  - Cynllunio ansawdd
  - Sicrhau ansawdd
  - Rheoli Ansawdd
  - Gwelliant a chyflawni
- Bydd rhwydweithiau a gwaith cynllunio yn helpu i ysgogi gwelliant, newid (gan gynnwys arloesi a gwerth) a darpariaeth drwy rwydweithiau clinigol a rhaglenni cenedlaethol.

Diben allweddol Perfformiad a Gwella GIG Cymru yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal er mwyn sicrhau canlyniadau gofal iechyd gwell a thecach i bobl Cymru.

## Profiad y claf

Mae profiad y claf yn golygu rhoi'r claf a'i brofiad wrth wraidd y broses gwella ansawdd. Mae profiad y claf yn canolbwyntio ar y mesurau a'r elfennau sy'n bwysig i'r claf, er enghraifft parch at werthoedd, dewisiadau ac anghenion penodol sy'n canolbwyntio ar y claf, cyfathrebu, cysur corfforol a pharhad gofal.

## Safonau Iechyd a Gofal

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn nodi fframwaith safonau cyffredin Llywodraeth Cymru i helpu'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o safon ym mhob lleoliad gofal iechyd. Maent yn amlinellu'r hyn y gall pobl Cymru ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd, a'r cyfraniad y gallan nhw ei wneud at hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Maent yn gosod disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau ac a ydynt yn darparu neu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer eu dinasyddion lleol.

## Sefydliadau GIG Cymru

Mae sefydliadau GIG Cymru yn cynnwys saith bwrdd iechyd, tair ymddiriedolaeth a dau awdurdod iechyd arbennig. Yn ogystal, mae yna nifer o sefydliadau eraill GIG Cymru sy'n cael eu cynnal gan un o'r sefydliadau uchod fel Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Chyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru.
System Rheoli Ansawdd Genedlaethol

Mae'r System Rheoli Ansawdd Genedlaethol yn dwyn data ynghyd o nifer o ffynonellau, gan gynnwys digwyddiadau diogelwch cleifion, ar gyfer prosesau triongli ac i lywio gweithgareddau amrywiol mewn perthynas â dysgu a sicrwydd.

## Ymddiriedolaethau

Mae tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Gymru gyfan. Y rhain yw Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw'r gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol. Mae'n darparu ystod o wasanaethau y tu allan i'r ysbyty, gwasanaethau brys a gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys fel GIG 111.
- Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol ledled de a chanolbarth Cymru drwy Ganolfan Ganser Felindre, a gwasanaeth cenedlaethol drwy Wasanaeth Gwaed Cymru.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth iechyd y cyhoedd genedlaethol ac mae'n darparu arweiniad ar faterion iechyd y cyhoedd. Mae'n gyfrifol am ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd.